# Cyngor Partneriaeth Cymru – 6 Gorffennaf 2022

## Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

### Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau, gan gynnwys Arweinwyr awdurdodau lleol a etholwyd yn ddiweddar, i'r cyfarfod**.** Nodwyd ymddiheuriadau hefyd.

2. Cadarnhaodd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u cylchredeg a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau.

3. Gofynnodd Alun Michael am ddiwygiad i dudalen pump o'r cofnodion, sef y cyfeiriad penodol at *Fwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd i Gymru*. Eglurodd nad Bwrdd newydd oedd hwn gan ei fod wedi bodoli ers rhai blynyddoedd ond ei fod wedi datblygu'n sylweddol. O ganlyniad, awgrymodd y dylid diwygio'r cofnodion i nodi'r datblygiadau sylweddol ym maes Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'r Grŵp Llywio a oedd wedi dod i fodolaeth o ganlyniad i waith cydweithredol yn ystod Pandemig COVID-19.

4. Yng ngoleuni datblygiadau sylweddol mewn perthynas â threfniadau Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru, a oedd yn berthnasol i Gyngor Partneriaeth Cymru, awgrymodd Alun Michael eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor mewn perthynas â Datblygiadau mewn Gweithio mewn Partneriaeth o fewn Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

**Cam Gweithredu 1:** Cytunodd y Gweinidog y byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu diwygio i adlewyrchu sylwadau Alun Michael, ac y byddai eitem am drefniadau Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn cael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, gan nodi bod y cyfan wedi'i gwblhau neu ei fod mewn llaw.

6. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad hefyd ar y gwaith parhaus i roi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ganllawiau drafft yn ymwneud ag ystod o faterion, gan gynnwys strategaethau cyfranogi a chynlluniau deisebau sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu cyfranogiad ac annog yr awdurdodau lleol i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad a ddaw i ben ym mis Gorffennaf.

7. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau mai Cadeirydd newydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd Frances Duffy, a fydd yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad 10 mlynedd o'r Panel. Nododd y Gweinidog fod Bev Smith, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, wedi'i phenodi i'r Panel er mwyn cefnogi mwy o gydweithio rhwng y ddau gorff.

8. Yn ogystal, cadarnhawyd bod gwaith yn parhau i fwrw ymlaen â gweithredu argymhellion gan Adolygiad Richard Penn o'r Adroddiad Fframwaith Moesegol ac Adolygiad Peter Oldham KC o'r trefniadau ar gyfer delio â chamymddygiad honedig uwch swyddogion o fewn llywodraeth leol.

9. Daeth yr ymgynghoriad ar *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: canllawiau statudol ar safonau ymddygiad* i ben ar 16 Mai 2022. Disgwylir cyhoeddi'r fersiwn derfynol o'r canllawiau yn ystod yr hydref.

## Eitem 1 ar yr Agenda:

- **Rhagolwg / rhaglen waith**
- **Cynllun Llywodraeth Leol**
- **Cylch Gorchwyl Cyngor Partneriaeth Cymru**

10. At ddibenion yr aelodau newydd o Gyngor Partneriaeth Cymru, rhoddodd y Gweinidog drosolwg byr o ddiben y grŵp a'i ffyrdd o weithio, gan gynnwys crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol a sut mae'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu datblygu a'u hadeiladu o amgylch blaenoriaethau cyffredin: Meysydd cyffredin sy'n peri pryder, cyfleoedd cyffredin ac ymdrechion cyffredin.

11. Awgrymodd y Gweinidog ei bod yn amserol ystyried yn ffurfiol eitemau i'w trafod yn y dyfodol mewn cyfarfodydd, gan gynnwys eitemau sefydlog ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Dylid hefyd ystyried y Cynllun Partneriaeth sy'n bodoli eisoes (cafodd ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2017) a Chylch Gorchwyl Cyngor Partneriaeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu ffyrdd presennol y grŵp o weithio.

12. Cafodd yr awgrymiadau canlynol eu cynnig gan Aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru fel eitemau i'w trafod yn y dyfodol:
    - Yr argyfwng costau byw - canolbwyntio ar gynlluniau cymorth a rhannu syniadau newydd ar y ffordd orau o gefnogi pobl
    - Costau byw i ardaloedd gwledig
    - Cyfiawnder Troseddol - i'w grwpio gyda chyfiawnder ieuenctid ataliol a diogelwch cymunedol.
    - Covid-19 - yng ngoleuni cynnydd mewn achosion a lefelau salwch.

**Cam Gweithredu 2:** Pob aelod i ystyried eitemau posibl i'r agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ac i fwydo nôl i ysgrifenyddiaeth neu drwy CLlLC.

**Cam Gweithredu 3:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gylchredeg y Cynllun Partneriaeth (diwygiwyd ddiwethaf yn 2017) a'r Cylch Gorchwyl i'r aelodau i'w hystyried ac i gyflwyno sylwadau arnynt.

**Cam Gweithredu 4:** Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd costau byw yn parhau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan gyd-fynd â chyllideb yr Hydref.

## Eitem 2 ar yr Agenda: Newid Hinsawdd (eitem sefydlog)

13. Diben cyffredinol yr eitem oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y camau nesaf o ran datgarboneiddio ac addasu gan y Panel Strategaeth Newid Hinsawdd, gan gynnwys rhaglen gymorth CLlLC. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a rhoi diweddariad i aelodau a oedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:
    - Mae Newid Hinsawdd wedi bod yn eitem sefydlog ar yr agenda ers dwy flynedd bellach, i gydnabod ei bwysigrwydd a'i effaith.
    - Ar ddechrau mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad cyntaf *Sero Net y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Llinell Sylfaen ac Argymhellion.*
    - Mae angen canolbwyntio ar gyflawni cynllun Cymru Sero Net. Bydd Tim Peppin yn rhoi diweddariad ar gefnogaeth CLlLC i ymrwymiadau'r awdurdod lleol yn y cynllun.
    - Cafodd buddsoddiad cyfalaf gwerth £1.8 biliwn i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ei gymeradwyo gan y Senedd fel rhan o'r gyllideb tair blynedd ddiweddar.
    - Yn ddiweddar, cymerodd y Gweinidog ran mewn dadl ar ddatgarboneiddio pensiynau'r sector cyhoeddus. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, er mwyn iddynt gyd-fynd â thargedau net sero presennol y sector cyhoeddus. Croesawodd y Cynghorydd Anthony Hunt y dull gweithredu hwn ac roedd yn awyddus i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru gydweithio ar y mater. Byddai trafodaeth bellach y tu allan i Gyngor Partneriaeth Cymru yn cael ei groesawu.

**Cam Gweithredu 5:** Gwahoddir Partneriaeth Pensiynau Cymru i gyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth ar ddechrau 2023 neu i'r is-grŵp cyllid i roi diweddariad.

**Cam Gweithredu 6:** Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod, trwy CLlLC, i drafod cynlluniau pensiwn.

14. Gwahoddodd y Gweinidog Tim Peppin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Gymorth Newid Hinsawdd CLlLC. Cafodd papur cryno ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

15. Gwahoddwyd Tegryn Jones, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, i roi diweddariad ar ran Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol (y Panel). Crybwyllodd y diweddariad sefydlu'r Panel a'i gynnydd hyd yn hyn, ac yna gofynnwyd am sêl bendith aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru i gamau nesaf arfaethedig y Panel.

16. Croesawodd y Gweinidog y diweddariadau a'r cynigion ar gyfer y camau nesaf. Yna agorodd y drafodaeth i'r aelodau. Cafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu nodi:
    - Pryderon am allu cwmnïau trydan i gefnogi cerbydau trydan. Cafodd Llywodraeth Cymru ei hannog i ofyn am sicrwydd gan gwmnïau ynglŷn â darparu gwefrwyr cyflym ar gyfer cerbydau trydan ar draws Cymru.

- Pwysigrwydd ymgysylltiad awdurdodau lleol â Chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ar eu cynlluniau ar gyfer Newid Hinsawdd. Dywedwyd bod rhwydwaith 'cynrychiolwyr gwyrdd' yr Undebau fel chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu cyfleoedd hyfforddi newydd ac adnoddau newydd. Mae'r undebau'n annog y gweithlu i ailhyfforddi trwy'r gronfa dysgu Cymraeg, gan arwain at wella sgiliau staff. Nodwyd bod fflyd drydan Cyngor Abertawe yn cael ei chynnal yn fewnol gan y gweithlu presennol sydd wedi cael ei ailhyfforddi, heb unrhyw gostau ychwanegol i'r sefydliad.
- Anogodd Shavanah Taj yr aelodau i ddysgu gan TUC yr Alban a Llywodraeth yr Alban a oedd wedi cyflwyno eu rhaglen peryglon yn y gweithle yn llwyddiannus.
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng gweithleoedd.
- Rhannodd y Cynghorydd Huw David ddiweddariad ar beilot o gerbydau sy'n cael eu rhedeg trwy ddefnyddio olew llysiau wedi'i hydro-drin.
- Nodwyd mai hydrogen fyddai'r opsiwn a ffefrir yn ddelfrydol ar gyfer fflydoedd awdurdodau lleol, ond bod argaeledd a'r galw presennol yn broblem.
- Cododd y Cynghorydd Mark Pritchard bryderon am gostau tanwydd cynyddol ond roedd yn teimlo na fyddai costau'r a delir ymlaen llaw i brynu cerbydau trydan yn gwarantu disodli'r fflyd ddisel bresennol oni bai bod grant yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru i'w disodli.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Andrew Morgan bwysigrwydd peidio â chymharu awdurdodau lleol â'i gilydd am fod tiriogaeth a materion daearyddol pob awdurdod yn wahanol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu newid a throsi i gerbydau trydan, ond nodwyd y byddai'n amhosibl ar hyn o bryd ar gyfer eu cerbydau sbwriel mwy.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd James Gibson-Watt fod Cabinet Cyngor Sir Powys wedi cymeradwyo cynllun i wneud cais am y gronfa grant Cerbydau Trydan gan lywodraeth Cymru. Byddai hyn ar gyfer prynu cerbydau trydan, gan gynnwys e-feiciau, ar gyfer darparwyr gofal cartref sydd ar hyn o bryd yn cerdded o gleient i gleient, gan eu galluogi i ehangu ar eu hystod o waith.

17. Cydnabu'r Gweinidog y sylwadau a godwyd ynghylch gwahanol faterion daearyddol rhwng awdurdodau lleol a sut y gallai hynny fod yn bryder. Roedd hi'n teimlo y byddai canolbwyntio ar gydweithio a chwilio am gyfleoedd i brynu ar y cyd yn fuddiol i bawb.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 7:** Y Gweinidog Newid Hinsawdd i roi diweddariad ysgrifenedig ar gapasiti'r rhwydwaith. |

## Eitem 3 ar yr Agenda: Yr Argyfwng Costau Byw

18. Croesawodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr Argyfwng Costau Byw.

19. Diben y drafodaeth oedd i'r Gweinidogion roi diweddariad ar gynllun a phecyn yr Argyfwng Costau Byw ac hefyd i glywed gan yr aelodau am yr effaith ehangach yr oedd yr argyfwng yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus.

20. Cydnabu'r Gweinidog fod yr Argyfwng Costau Byw yn parhau i gael effaith ddifrifol ar aelwydydd ledled Cymru a'r DU, gan fwrw teuluoedd incwm is. Dangosodd dadansoddiad diweddar fod nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru wedi codi o 12% yn 2018 i tua 45% o ganlyniad i gynnydd ym mhris tanwydd ym mis Ebrill. Roedd disgwyl y byddai'r cynnydd arfaethedig mewn prisiau ynni ym mis Hydref yn gwaethygu'r problemau ariannol y mae cartrefi yn eu cael ymhellach.

21. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cefnogaeth i aelwydydd trwy 'gyflog cymdeithasol' mwy hael. Yn ogystal, fel rhan o'r agenda gwaith teg, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a hybu mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel ffordd o fynd i'r afael â chyflogau isel a thlodi mewn gwaith.

22. Amlinellodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol nifer o Ddigwyddiadau Costau Byw a oedd wedi'u cynnal, neu a oedd i fod i gael eu cynnal, a'r amrywiaeth o fentrau sydd ar waith i gefnogi'r argyfwng.

23. Cadarnhaodd y ddau Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio yn adeiladol gyda phartneriaid wrth ymateb i'r argyfwng a'i bod yn awyddus i roi sicrwydd lle bo modd.

24. Cafodd y drafodaeth ei hagor i'r aelodau gan fod y ddau Weinidog yn awyddus i glywed am y pwysau yr oedd eu sefydliadau'n dod ar eu traws ar hyn o bryd o ganlyniad i'r argyfwng, a'r hyn yr oeddent yn ei wneud mewn ymateb.  Cafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu nodi:
    - Cadarnhaodd y cynghorydd Steve Thomas fod y sefyllfa mor wael i nifer o staff gofal cymdeithasol fel eu bod yn ystyried rhoi'r gorau i'w swydd.
    - Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan wrth yr aelodau fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gefnogi eu staff Gofal Cymdeithasol rheng flaen trwy gynnig taliadau ymlaen llaw i gynorthwyo gyda chostau tanwydd gan fod oedi wrth hawlio treuliau. Er hynny, nododd fod y cymorth sy'n cael ei rhoi i staff yn cael ei erydu gan y codiad mewn chwyddiant a chostau teithio. Anogodd Lywodraeth Cymru i gysylltu ag Adran Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch adolygu'r cyfraddau milltiredd a'r lwfansau milltiredd presennol. Byddai codiad o 45 ceiniog y filltir i 50 ceiniog y filltir yn helpu. Ategwyd hyn gan yr aelodau a hefyd y Gweinidog.
    - Roedd Mike Theodoulou yn ymwybodol bod nifer o fusnesau bach yn cefnogi'r argyfwng bwyd drwy nifer o brosiectau defnyddiol. Anogodd Lywodraeth Cymru i gymell busnesau lleol i ymwneud â mentrau a fyddai'n

rhoi cymorth iddynt yn ystod yr argyfwng Costau Byw er mwyn eu helpu i barhau i fod yn gynaliadwy.

- Cytunodd Maria Battle fod angen negodi disgowntiau gyda busnesau lleol a'i bod yn arbennig o bwysig i staff y GIG sydd ar gyflogau is. Mae gan y GIG ap ar gyfer staff ynglŷn â chael mynediad at ddisgowntiau busnes lleol yn uniongyrchol. Byddai'n dda i'r aelodau rannu manylion y cynlluniau sydd ar gael.

**Cam Gweithredu 8:** Llywodraeth Cymru i gysylltu ag Adran Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch adolygu'r cyfraddau milltiredd a'r lwfans milltiredd presennol.

**Cam Gweithredu 9:** Aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru i rannu manylion y disgowntiau hysbys sydd ar gael i staff o lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus

**Cam Gweithredu 10:** Cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i roi adborth o'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn i gydweithwyr perthnasol, gan gynnwys y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd  gan y gallai fod gan y gymuned ffermio ran wrth gyfrannu at gefnogi'r argyfwng.

**Cam Gweithredu 11:** Gwahoddodd y Gweinidogion yr aelodau i feddwl am awgrymiadau y gellid eu cyfleu i Lywodraeth y DU. Ymrwymodd y Gweinidogion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r  aelodau oddi wrth Drysorlys EF.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru

25. Croesawodd y Gweinidog y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i arwain yr eitem ar Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru a lansiwyd yn ddiweddar.

26. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyngor Partneriaeth Cymru ar Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, ac yn arbennig i ymgysylltu â'r aelodau am y camau gweithredu trawsbynciol.

27. Pwysleisiodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol bwysigrwydd yr ymagwedd at gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. Roedd yn teimlo ei bod yn bryd cael newid ac yn gyfle i ymgorffori gwerthoedd Cymru a chryfhau Cymru fel cenedl noddfa, gan bwysleisio'r angen i gydweithio er mwyn gweithredu a chyflawni'r agenda.

28. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ei bod wedi gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â'r rhyng-gysylltiad ar draws partneriaethau a phobl sy'n darparu gwasanaethau. Mae gan bob partner rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ac mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn ategu pwysigrwydd cydweithio.

29. Cododd yr aelodau'r pwyntiau canlynol fel rhan o'r drafodaeth ar Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru:

- Diolchodd Alun Michael i'r Gweinidogion am y diweddariad a chydnabod pwysigrwydd cydweithio i gyflawni'r agenda, gan nodi bod llawer o ryngddibyniaethau i'r heddlu sy'n dymuno gweithio mewn amgylchedd datganoledig.
- Nododd y Cynghorydd Bryan Davies y materion pwysig a godwyd a mynegi pryder am ffoaduriaid a phobl o Wcráin sy'n wynebu casineb hiliol.
- Nododd Aled Edwards y cydberthnasau cadarnhaol ac effaith gweithio mewn partneriaethau sy'n gallu bod yn arloesol iawn. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cefnogi ar sail gymunedol.
- Cadarnhaodd Maria Battle ei bod yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd. Roedd cydnabod prinder llafur yn y sector gofal yn bwysig. Mae pobl o Wcráin yn dymuno gweithio a chael y sgiliau. Roedd hi'n teimlo bod pwysau o ran llety ond pwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau i helpu i ddod o hyd i atebion, megis mentora o chwith.
- Mynegodd y Cynghorydd Mark Pritchard bryder am hiliaeth a dweud ei bod yn dal yn bresennol ymysg rhai. Roedd yn teimlo ei bod yn annerbyniol ac fe anododd r i gymryd agwedd dim goddefgarwch.

30. Croesawodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y gwaith hanfodol yr oedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ei wneud i helpu i sbarduno a chefnogi cydlyniant cymunedol. Cytunodd y Gweinidog y gallai ffoaduriaid gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ein hanghenion cyflogaeth, a bod rhaid i wasanaethau cyhoeddus achub cyfleoedd i recriwtio pobl brofiadol neu gymwys addas. Cydnabu'r Gweinidog gydnabod fod darparu llety addas yn ffactor pwysig yn hyn o beth.

## Eitem 5 ar yr Agenda: Diweddariad ar Wcráin

31. Rhoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddiweddariad i'r aelodau ar Wcráin. Dechreuodd drwy gadarnhau fod cydgweithio agos wedi bod ar lefelau Arweinydd a Phrif Weithredwr Awdurdodau Lleol. Dywedodd y Gweinidog fod yr ymateb i gefnogi ceiswyr noddfa o Wcráin wedi bod yn ysbrydoledig, gyda'r Awdurdodau Lleol, y GIG, Heddluoedd, y Trydydd Sector a phartneriaid eraill i gyd yn ymdrechu i gefnogi cymaint o bobl â phosibl i ddod o hyd i lwybrau i ddiogelwch.

32. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod Cymru wedi croesawu (hyd at amser y cyfarfod) 1,300 o bobl trwy'r cynllun Uwch-noddwyr, yn ogystal â 2,000 o bobl bellach a ddaeth yn uniongyrchol i gartrefi pobl ledled Cymru drwy'r Cynllun Cartrefi i Wcráin. Ar y pryd roedd 5,000 o geisiadau Uwch-noddwyr yn y system gyda thros 4,000 o fisâu yn cael eu rhoi erbyn diwedd mis Mehefin. Crybwyllodd y Gweinidog y gwaith cadarnhaol rhwng partneriaid i sefydlu nifer o ganolfannau croeso ledled Cymru er mwyn darparu llety i bobl sy'n cyrraedd o Wcráin drwy'r llwybr uwch-noddwyr.

33. Oherwydd yr ymateb cadarnhaol, roedd Cymru wedi llwyddo i gynnig llawer mwy o fisâu na'r disgwyl gwreiddiol. Er hynny, ar ddiwedd mis Mehefin penderfynwyd atal y cynllun Uwch-noddwyr dros dro i sicrhau bod pawb sy'n cyrraedd, a'r rhai sydd eisoes yng Nghymru, yn parhau i dderbyn lefel ragorol o ofal a chymorth.

Dywedodd y Gweinidog fod gweithio gyda'i gilydd i symud ymlaen yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gan bawb sy'n cyrraedd o Wcráin lety a chefnogaeth addas.

34. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn awyddus i glywed profiadau'r aelodau ac i geisio barn ar sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau i chwarae eu rhan yn llawn wrth gefnogi statws 'Cymru fel Cenedl Noddfa'. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:
    - Cadarnhaodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ei gefnogaeth i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru a dweud ei fod yn falch o fod yn rhan o'r gwaith, yn arbennig ar y ganolfan groeso yng Ngwynedd. Er hynny, pwysleisiodd fod llawer o bwysau'r cymorth i ddyfodiaid o Wcráin o ddydd i ddydd yn disgyn ar yr awdurdodau lleol. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn fod yr effaith ar adnoddau, y cymorth i staff, a'r materion mynediad mewn perthynas â chreu canolfannau croeso mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod yn broblem.
    - Rhannodd y Cynghorydd Huw Thomas bwysau dwys staffio yng Nghyngor Caerdydd wrth gefnogi'r cynllun Uwch-noddwyr a'r anawsterau penodol a welir wrth geisio dod o hyd i lety wrth gefn mewn gwestai. Cofnododd y Cynghorydd Thomas apêl ar gyfer awdurdodau eraill sydd heb Ganolfannau Croeso yn eu hardaloedd i roi cymorth fel bod modd rhannu'r pwysau, a hefyd i'r sector cyhoeddus ehangach i helpu i gefnogi'r bobl o Wcráin.
    - Cytunodd y Cynghorydd Rob Stewart â'r holl bwyntiau a godwyd gan yr aelodau. Cododd y Cynghorydd Stewart bryderon bod Llywodraeth y DU yn archebu llety yn uniongyrchol heb roi unrhyw ystyriaeth i'r ardal leol a heb gyswllt â'r awdurdod lleol perthnasol. O ganlyniad, bu achosion lle y mae pobl o Wcráin wedi cyrraedd heb unrhyw wybodaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Stewart, felly, fod pob sefydliad perthnasol yn gweithio i reol 'dim syndod' fel nad oes unrhyw ddyraniadau annisgwyl pellach.
    - Roedd y Cynghorydd Stephen Thomas yn cytuno y dylai pob ardal rannu'r pwysau. Gofynnodd fod Llywodraeth Cymru yn helpu gyda hysbysebu, gan ddefnyddio ymagwedd Cymru gyfan, i sicrhau bod cymunedau'n gyfan gwbl ymwybodol o'r ymagwedd genedlaethol at gefnogi pobl o Wcráin.
    - Anogodd y Cynghorydd Mark Pritchard yr aelodau i barhau i adrodd yr hanes, ac i gydweithio i wneud cymaint â phosibl i roi cymorth. Ategodd y Cynghorydd Pritchard nad oedd y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ymateb cenedlaethol i fater wedi cael eu rhannu ymysg y 22 Awdurdod Lleol ar adegau yn y gorffennol. Awgrymodd y Cynghorydd Pritchard hefyd y dylai landlordiaid cofrestredig chwarae eu rhan wrth gefnogi'r sefyllfa bresennol.

35. Cydnabu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yr holl sylwadau a wnaed a'r rheolaeth weithredol enfawr dan sylw, gan gynnwys trwy adleoli timau i gefnogi'r argyfwng. Dywedodd y Gweinidog fod cyfathrebu'n hanfodol, a bod hyn yn gyfrifoldeb Cymru gyfan, gan gynnwys y gofyniad i agor rhagor o Ganolfannau Croeso.

## Unrhyw Fater Arall

36. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i roi diweddariad ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datganodd y ddau Weinidog eu hymrwymiad i weithio gydag Arweinwyr ar y mater.

37. Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddirprwy Gadeirydd CGGC, Fran Targett, i roi diweddariad ar ran y sector gwirfoddol. Canolbwynt y diweddariad oedd:
    - Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd
    - Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael
    - Cau Cyllid yr UE a datblygu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin
    - Gwaith Ymddiriedolaethau Adfywio y Comisiwn Elusennau a chysylltiadau rhwng cynghorau a'r sector.

    Anfonwyd papur at yr aelodau cyn y cyfarfod.

## Sylwadau i gloi

38. Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad at y trafodaethau, a hysbysodd yr aelodau y câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal yn yr Hydref.